# Trosglwyddo o fewn ac i mewn i Addysg Uwch

## Archwiliad o ddulliau ac arferion da

Awst 2025

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

# Cynnwys


1. Crynodeb gweithredol ....................................................................................1
2. Cyflwyniad a'r cyd-destun ..............................................................................2
3. Ehangu mynediad a llwybrau trosglwyddo .......................................................4
4. Themâu yn ymwneud â throsglwyddo..................................................................6
5. Adnoddau QAA ................................................................................................8
6. Arferion yn yr Alban.........................................................................................10
7. Arferion yn Lloegr............................................................................................13
8. Arferion yng Nghymru ......................................................................................14
9. Casgliad ..........................................................................................................23
10. Cyfeiriadau/nodiadau ......................................................................................25

Atodiad - Cyfeiriadur o adnoddau yn ymwneud â throsglwyddo ................................27

# 1. Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn, a gomisiynwyd gan Medr, yn archwilio sut mae dysgwyr yn trosglwyddo i mewn i addysg uwch (AU) ac yn gweithio eu ffordd drwy addysg uwch, gan ganolbwyntio ar wella mynediad a deilliannau i'r grwpiau hynny sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yng Nghymru. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys unigolion o gefndiroedd sy'n ddifreintiedig yn economaidd, dysgwyr sydd wedi profi gofal, gofalwyr, pobl ag anableddau a phobl o leiafrifoedd ethnig.

Trwy ymchwilio arferion da o bob rhan o'r DU, canfuwyd pum prif thema sy'n cefnogi trosglwyddo llwyddiannus.

- **Teimlad o berthyn** – mae teimlad cryf o gymuned yn gwella cadwraeth a lles myfyrwyr.
- **Datblygiad sgiliau** – mae cymorth academaidd cynnar ac integredig yn datblygu hyder ac yn datblygu gallu.
- **Gwybodaeth** – mae sicrhau bod gwybodaeth glir, gynhwysol a diduedd ar gael yn galluogi i fyfyrwyr wneud penderfyniadau deallus a ffurfio disgwyliadau realistig.
- **Cynefino** – mae gweithgareddau cynefino trefnus a pharhaus yn paratoi myfyrwyr ar gyfer eu taith addysg uwch.
- **Mentora gan gymheiriaid** – mae cymorth gan gyd-fyfyrwyr yn gwella integreiddiad academaidd a chymdeithasol.

Mae esiamplau o arferion da'n tynnu sylw at bwysigrwydd cymorth wedi'i bersonoli, dulliau cynhwysol a chydweithrediad. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau ac offer sydd ar gael wyneb yn wyneb ac yn ddigidol ac sy'n cael eu darparu neu eu rhoi at ei gilydd gan amrywiaeth eang o staff neu gyd-fyfyrwyr, gan gynrychioli'r amrywiaeth ym mhoblogaeth y myfyrwyr.

Yng Nghymru, mae ystod o 14 menter astudiaeth achos yn dangos sut y mae cydweithredu cryf ac effeithiol rhwng darparwyr addysg drydyddol, y llywodraeth, cyrff cyllido, cyrff rheoleiddio a QAA yn gallu codi dyheadau, datblygu hyder a chefnogi dysgwyr o gefndiroedd amrywiol. Yn aml iawn, mae'r mentrau hyn yn cyfuno darparu gwybodaeth glir a diduedd am addysg uwch, cyllid ac opsiynau astudio, gwaith paratoi academaidd, cymorth lles, mentora ac adnoddau hygyrch.

Er mwyn mynd i'r afael â rhwystrau i gyfranogiad a chynnydd mae angen cael dull sy'n cyfuno gwybodaeth glir, datblygiad sgiliau academaidd a chefnogaeth gymdeithasol ac emosiynol drwy gydol taith y myfyriwr.

## 2. Cyflwyniad a'r cyd-destun

Mewn ymateb i Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, sefydlwyd Medr, sef y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, sy'n gyfrifol am gyllido, goruchwylio a rheoleiddio addysg ôl-16 yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn rhoi nifer o ddyletswyddau i Medr, yn cynnwys hybu cyfle cyfartal drwy:


- gynyddu cyfranogiad mewn addysg drydyddol a gwella cyfraddau cadwraeth grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol
- ostwng bylchau mewn cyrhaeddiad
- gefnogi myfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i barhau â'u haddysg drydyddol, canfod swydd, neu gychwyn busnes.

Yn y cyd-destun hwn, y 'grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol' yw'r grwpiau hynny sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol mewn addysg drydyddol yng Nghymru, oherwydd ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd a threfniadol. Mae'r rhain yn cynnwys pobl yn y ddau gwintel isaf o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC), gofalwyr a dysgwyr sydd wedi profi gofal, pobl ag anableddau a'r rheiny sydd o leiafrifoedd ethnig.

Yn 2023-24, roedd 150,680 o fyfyrwyr cofrestredig gan ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru; sef 2% yn llai nag yn 2022-23 (154,385)[1] ond 1% yn fwy nag yn 2021-22 (149,045).[2] Mae'r nifer o ddysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach yng Nghymru wedi cynyddu o 99,925 yn 2021-22 i 105,785 yn 2022-23, ac roedd 108,645 o ddysgwyr unigol wedi eu cofrestru yn 2023-24.[3] Er hynny, mae Medr yn nodi yn ei Gynllun Strategol ar gyfer 2025-30 bod cyfraddau cyfranogiad mewn addysg drydyddol yn 'rhy isel'[4] am mai dim ond 67.4% o oedolion oedran gweithio yng Nghymru sydd â chymwysterau lefel 3 neu'n uwch o'i gymharu â tharged o 75%.

Mae cynllun strategol Medr hefyd yn nodi bod y nifer o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (pobl ifanc NACH) yn 'rhy uchel'. Yng Nghymru, y gyfradd NACH o bobl rhwng 16 a 24 oed oedd 11.6% yn y flwyddyn hyd at fis Rhagfyr 2024.[5] Fodd bynnag, mae tuedd gadarnhaol sy'n dangos bod y nifer o bobl ifanc NACH wedi gostwng o oddeutu 10% ers 2010, ac o 4.5% dros y degawd diwethaf. Ond, dim ond o 0.9% y mae'r gyfran o bobl ifanc NACH wedi gostwng dros y pum mlynedd diwethaf – gwelwch Ffigur 1.

Ffigur 1: Pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (cyfwng hyder o 95%).[5]



Mae data cyfanredol am bobl ifanc NACH yng Nghymru ar gyfer y tair blynedd hyd at fis Rhagfyr 2024 yn dangos bod gan oddeutu traean (36.3%) o'r bobl rhwng 16 a 24 oed gymwysterau lefel 3 neu'n uwch.[6] Mae hyn yn golygu bod pobl ifanc yn gadael yr ysgol neu'r coleg gyda chymwysterau lefel 3 ac yn dod yn economaidd anweithgar rywbryd cyn eu pen-blwydd yn 25 oed. Mae'n bosibl y gellid gostwng y nifer o bobl ifanc NACH drwy roi cymorth penodol i bobl ifanc i'w helpu i fynd i mewn i addysg uwch neu i aros yno.

Cafodd y prosiect hwn ei gomisiynu gan Medr i archwilio sut mae darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru, a thrwy'r DU gyfan, yn cefnogi symud ymlaen i addysg uwch a thrwyddi, gan ganolbwyntio ar ddulliau a allai gyfrannu at gynyddu cyfranogiad a gwella deilliannau i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae'r canfyddiadau'n defnyddio esiamplau o arferion da a gasglwyd gan QAA drwy brosiectau'r sector, Themâu Gwelliant yn yr Alban, adolygiadau ansawdd, a mentrau dan arweiniad aelodau QAA yn Lloegr. Mae arferion da yng Nghymru wedi eu cynrychioli drwy gyfres o astudiaethau achos a ddetholwyd ar gyfer y prosiect hwn ac a gyhoeddwyd yn llawn ar wefan QAA Cymru.

## 3. Ehangu mynediad a llwybrau trosglwyddo

Mae'n amlwg bod dymuniad clir gan Medr i gynyddu cyfranogiad mewn addysg drydyddol, a bod ganddo ddyletswydd strategol i gynyddu cyfranogiad grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Fel arfer mae ymdrechion bwriadol i gynyddu cyfranogiad y rheiny sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg drydyddol neu addysg uwch wedi eu disgrifio fel rhai sy'n 'ehangu' mynediad neu gyfranogiad. Nid yw ehangu mynediad ar ei ben ei hun yn cynyddu cyfranogiad gyfan mewn addysg uwch ond os bydd cyfradd recriwtiad myfyrwyr o gefndiroedd traddodiadol yn parhau, ac y mae cynnydd mewn recriwtio grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, bydd cynnydd mewn cyfranogiad yn gyffredinol a chynnydd yn y gyfran o bobl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch.

Mae gan bob gwlad o'r DU ei dull ei hun o sicrhau ac ehangu mynediad teg i addysg uwch. Yng Nghymru, os yw darparwyr addysg uwch eisiau i'w cyrsiau israddedig llawn amser gael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr addysg uwch, mae'n rhaid iddynt gyflwyno Cynllun Mynediad a Ffioedd i Medr. Mae'r cyfarwyddyd cyfredol, a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ym mis Mai 2024, yn nodi mai nod Cynlluniau Mynediad a Ffioedd yw gwneud cyfraniad sylweddol a pharhaus i ehangu mynediad i addysg uwch yng Nghymru, cynyddu cyfranogiad, gwella cadwraeth, gostwng bylchau mewn cyrhaeddiad a gwella'r cyfleoedd i gael swydd a deilliannau astudio pellach i fyfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Am eu bod yn sylweddoli mor bwysig yw cadwraeth, mae nifer o ddarparwyr yn canolbwyntio rhai o'u gweithgareddau ehangu mynediad ar ffyrdd o gefnogi myfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol wrth iddyn nhw drosglwyddo o'r ysgol neu'r coleg i addysg uwch a pharhau i ddarparu cymorth wrth iddyn nhw drosglwyddo drwy eu teithiau addysg uwch.

Yn 2016, cyhoeddodd y Comisiwn Ehangu Mynediad, a sefydlwyd gan Lywodraeth yr Alban, ei 'lasbrint ar gyfer tegwch' [Blueprint for Fairness] – sef cynllun ar gyfer y system gyfan i sicrhau mynediad cyfartal i addysg uwch.[7] Dyma un o'r prif dargedau a gynigwyd gan y Comisiwn ac a fabwysiadwyd gan Lywodraeth yr Alban: "Erbyn 2030, dylai myfyrwyr o'r 20% o gefndiroedd sy'n fwyaf difreintiedig[8] gynrychioli 20% o'r bobl sy'n mynd i mewn i addysg uwch. Dylid gweld mynediad cyfartal yn y sector colegau a'r sector prifysgolion fel ei gilydd." Yn dilyn hynny, lansiwyd gwefan Fframwaith Mynediad Teg yr Alban ym mis Mai 2019, gyda'r nod o helpu ymarferwyr mynediad mewn ysgolion, colegau, prifysgolion ac yn y sector addysg drydyddol i gynllunio a gwerthuso ffyrdd o helpu pobl o gefndiroedd difreintiedig i fynd i mewn i addysg uwch. Hyd at 2023-24, roedd Cyngor Cyllido'r Alban yn cyhoeddi cytundebau oedd yn nodi'r deilliannau y cytunwyd arnynt i bob darparwr addysg drydyddol yn yr Alban a oedd yn amlinellu ymrwymiadau allweddol pob darparwr i fynediad a throsglwyddiad teg. O flwyddyn academaidd 2024-25 ymlaen, mae'r Fframwaith Deilliannau a'r Dull Sicrhau'n cymryd lle'r cytundebau deilliannau hynny. Mae'r dull newydd yn cynnwys saith deilliant sy'n berthnasol i golegau a phrifysgolion fel ei gilydd, yn cynnwys 'Buddiannau, mynediad a llwyddiant y myfyrwyr'. Yn ogystal â'r fframwaith deilliannau, mae 'ymgysylltiad' yn elfen bwysig o'r dull ac mae Rhaglen Wella Addysg Drydyddol yr Alban [Scotland's Tertiary Enhancement Programme (STEP)] yn rhaglen genedlaethol o weithgareddau gwella cydlynol. Pwnc cyntaf y rhaglen STEP, a fydd yn rhedeg tan 2028, yw 'Cefnogi teithiau dysgwyr amrywiol', ac un flaenoriaeth o fewn y pwnc hwn yw 'Cefnogi trosglwyddiad a llywio llwybrau'. Mae'r rhaglen STEP yn dod â'r sector addysg drydyddol yn yr Alban at ei gilydd i rannu arferion da a chydweithio ar eu blaenoriaethau cyffredin.

Yn Lloegr, mae'n rhaid i bob darparwr addysg uwch sydd eisiau codi ffioedd sy'n uwch na'r lefel sylfaenol fod â Chynllun Mynediad a Chyfranogiad sydd wedi ei gymeradwyo gan y Swyddfa Myfyrwyr. Ers i'r Swyddfa Mynediad Teg gyflwyno'r Cynlluniau Mynediad yn 2005, mae'r canllawiau a gofynion perthnasol wedi newid yn sylweddol, ond mae'r egwyddor yn parhau fel yr oedd yn ei hanfod, sef fod pob darparwr yn nodi eu hamcanion allweddol i wella cyfraddau mynediad neu lwyddiant grwpiau penodol o fyfyrwyr; lle mae llwyddiant wedi ei ddiffinio fel parhad (mesur cadwraeth), cyflawniad a/neu symudiad i swyddi i raddedigion neu astudiaethau pellach.

Erbyn hyn, mae gan y Swyddfa Myfyrwyr gyfrifoldeb uniongyrchol am gymeradwyo'r Cynlluniau Mynediad. Un o elfennau gofynnol pob Cynllun Mynediad a Chyfranogiad yw cynlluniau'r darparwyr ar gyfer gwerthuso eu hymyriadau strategol a'u cynnydd o ran cyflawni'r targedau y cytunwyd arnynt yn eu Cynllun Mynediad sefydliadol. I gefnogi'r gwaith gwerthuso, mae'r wefan TASO [Transforming Access and Student Outcomes in Higher Education], sydd â'r nod o drawsnewid mynediad a deilliannau dysgu myfyrwyr mewn addysg uwch, yn darparu adnoddau ar gyfer asesu pa mor llwyddiannus yw dulliau o ehangu cyfranogiad. Mae Cynlluniau Mynediad a Chyfranogiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan y corff rheoleiddio.

Yn debyg i Loegr, cyflwynodd Llywodraeth Gogledd Iwerddon drefniadau newydd ar gyfer ffioedd addysgu mewn addysg uwch yn 2006, sy'n cynnwys y gofyniad bod yn rhaid i ddarparwyr sydd eisiau codi ffioedd addysgu ar fyfyrwyr israddedig sy'n uwch na'r lefel sylfaenol fod â Chytundeb Mynediad yn ei le sy'n amlinellu'r cymorth y maent yn ei roi i'w myfyrwyr, gan gynnwys bwrsariaethau a gweithgareddau allgymorth. Yn 2013, adolygwyd y trefniadau er mwyn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau ddarparu Cynlluniau Ehangu Mynediad a Chyfranogiad – sef cyfuniad o'r hen Gytundebau Mynediad ac Asesiadau Ehangu Mynediad Strategol. Mae Cynlluniau Ehangu Mynediad a Chyfranogiad yn cael eu cymeradwyo'n flynyddol gan Adran yr Economi a'u cyhoeddi ar wefannau'r darparwyr.

Er bod pob gwlad o'r DU wedi datblygu ei fframweithiau mynediad a chyfranogiad, mae'r Diploma Mynediad i Addysg Uwch (Mynediad i AU) yn darparu mecanwaith ychwanegol, trwy'r DU gyfan, a reoleiddir gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA), i gefnogi dysgwyr sy'n oedolion ac sydd heb gymwysterau traddodiadol. Mae'r Diploma, sy'n cael ei ddarparu'n eang ledled Cymru a Lloegr, ac mewn niferoedd bach yng Ngogledd Iwerddon, yn galluogi symudiad i mewn i addysg uwch, yn arbennig mewn meysydd sy'n wynebu prinder sgiliau megis iechyd a gofal cymdeithasol. Am ei fod yn canolbwyntio ar waith paratoi academaidd a datblygu hyder, mae'n llwybr trosglwyddo effeithiol ac mae wedi ei alinio'n dda ag amcanion polisi ehangach o amgylch dysgu gydol oes, symudedd cymdeithasol a chyfranogiad economaidd.

## 4. Themâu yn ymwneud â throsglwyddo

**teimlad o berthyn**

Yn yr astudiaethau achos i gyd, a'r canfyddiadau am arferion da, mae nifer o themâu cyffredin yn dod i'r amlwg. Un o'r rhain yw '**teimlad o berthyn**'. Mae gwaith ymchwil wedi dangos bod myfyrwyr sy'n teimlo synnwyr cryf o berthyn yn fwy tebygol o ddyfalbarhau gyda'u hastudiaethau, gan arwain at well cyfraddau cadwraeth.[9] Mae amlygrwydd y ffaith bod teimlad o berthyn yn effeithio ar gadwraeth wedi achosi i nifer fawr o ddarparwyr ail feddwl am y ddarpariaeth fwrsariaethau a chymorth ariannol arall fel dull allweddol o gefnogi cadwraeth myfyrwyr ac, yn hytrach, maen nhw'n edrych ar ffyrdd o fagu teimlad o gymuned a pherthyn ymhlith y myfyrwyr.

**sgiliau**

Cafwyd gwaith ymchwil hefyd, er enghraifft gwaith Lewis a Hodges[10], sy'n dangos bod gallu academaidd yn gallu effeithio ar deimlad yr unigolyn o berthyn ac, i'r un graddau, gall y bobl sy'n amau eu galluoedd deimlo'n llai sicr ynghylch eu teimlad o berthyn. Mae amheuaeth am alluoedd academaidd a hefyd ddiffyg teimlad o berthyn yn gallu arwain at ddeilliannau academaidd gwael, a dyna pam mae **datblygiad sgiliau** academaidd yn bwysig ar gyfer trosglwyddo'n llwyddiannus.

Yn ddiweddar, gwnaethpwyd prosiect ymchwil mawr ar y cyd gan Wonkhe a Pearson yn ymwneud â magu teimlad o berthyn mewn addysg uwch, o dan y teitl 'Building Belonging in Higher Education. Recommendations for developing an integrated institutional approach'[11], i archwilio'r berthynas rhwng teimlad o berthyn, sgiliau academaidd a hyder y myfyrwyr, ac i ddatblygu argymhellion am ddatblygu dull integredig ar lefel sefydliadol. Roedd y prosiect yn cynnwys arolwg o 5,233 o fyfyrwyr mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, ac yn dilyn hynny grwpiau ffocws lle'r oedd cyfranogwyr wedi eu dewis yn fwriadol a phenodol o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch. Mae'r adroddiad yn nodi mai'r effaith fwyaf y gall prifysgol ei chael ar y teimlad o berthyn ymhlith ei myfyrwyr yw gwella'r ffordd y mae'n cysylltu â'r myfyrwyr hynny.

Yn nata eu harolwg mawr, canfu'r ymchwilwyr gyswllt clir rhwng y teimlad o berthyn ymhlith y myfyrwyr a hyder yn eu sgiliau academaidd. Roedd mwy na thraean o'r holl fyfyrwyr (38%) yn amau eu gallu. Er bod 32% o'r myfyrwyr a ddywedodd bod eu teimlad o berthyn yn gryf yn brin o hyder hefyd yn eu sgiliau academaidd, roedd 68% o'r myfyrwyr a ddywedodd bod eu teimlad o berthyn yn isel yn amau eu gallu hefyd. Mae hyn yn dangos angen cryf am ddatblygu sgiliau academaidd a rhoi hwb i hyder yn gynnar ar unrhyw gwrs. Mae'r adroddiad yn argymell y dylai sefydliadau werthuso cyrhaeddiad, darpariaeth ac effeithiolrwydd gweithgareddau cynefino cyn cyrraedd ac yn gynnar yn y cwrs, ac ystyried ffyrdd o werthuso'r effaith ar hyder y myfyrwyr. Tra bo'r adroddiad hefyd yn argymell y dylid rhoi systemau ar waith gynted ag y bo modd i ddarganfod pwy fyddai'n elwa o ddatblygiad sgiliau academaidd, mae hefyd yn nodi y dylid integreiddio datblygiad sgiliau academaidd drwy'r dysgu a'r addysgu i gyd, a'i ddarparu'n ddiofyn i bob myfyriwr yn hytrach nag aros nes bydd myfyriwr yn dweud eu bod yn brin o'r sgiliau. O ganlyniad, bydd hyn yn osgoi'r dull 'diffyg', lle mae'r rhai a ystyrir yn brin o sgiliau neu brofiad yn cael eu cyfeirio at dimau arbenigol i gael cymorth ychwanegol.

Mae'r adroddiad gan Wonkhe/Pearson yn cynnig esiamplau niferus o weithgareddau a chamau gweithredu y gall sefydliadau eu mabwysiadu i hybu teimlad gwell o berthyn ymhlith eu myfyrwyr. Mae rhai gweithgareddau wedi eu llunio i wella sgiliau academaidd, yn cynnwys 'llythrennedd asesiad', trwy ymarferion rheolaidd ac ailadroddol yn y dosbarth sy'n datblygu hyder y myfyrwyr. Mae nifer o'r gweithgareddau sydd wedi eu hawgrymu'n rhai hawdd eu trosglwyddo a/neu eu haddasu i dargedu neu gefnogi grwpiau amrywiol sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

**cynefino**

**gwybodaeth**

Er bod pob sefydliad yn cynnig **gweithgareddau cynefino**, nid yw pob un yn gwerthuso pa mor effeithiol yw'r gweithgareddau hyn. Mae'r awduron yn argymell cynnwys arolwg hanner ffordd wedi'i lunio i nodi ymhle y byddai'n fuddiol cyfeirio neu ailgyfeirio myfyrwyr at gymorth perthnasol a **gwybodaeth** arall. Yn ogystal, argymhellir y byddai myfyrwyr ym mhob grŵp blwyddyn yn elwa o gael sesiynau cynefino blynyddol.

Trwy arolwg o 2,190 o ymgeiswyr am le ar gyrsiau addysg uwch a wnaed gan Myfyrwyr Unite mewn partneriaeth â'r Sefydliad Polisi Addysg Uwch [Higher Education Policy Institute (HEPI)], ar gyfer Mynegai Ymgeiswyr yr undeb, canfuwyd bod yr ymgeiswyr mwyaf difreintiedig i sefydliadau addysg uwch yn y DU (ar sail eu statws economaidd) yn llai tebygol o gredu y byddent yn teimlo bod croeso iddynt yn y brifysgol, neu o deimlo eu bod yn perthyn, o'u cymharu â'r ymgeiswyr mwyaf breintiedig.[12] Mae gwaith ymchwil a wnaed gan Myfyrwyr Unite yn 2025, o dan y teitl '"A different world": the impact of socioeconomic background on the student experience', oedd wedi ei seilio ar grwpiau ffocws gyda myfyrwyr Prifysgol Leeds a Phrifysgol Fetropolitan Manceinion, yn cyflwyno nifer o argymhellion i ddarparwyr addysg uwch am gamau gweithredu a allai greu cyfleoedd i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fyfyrwyr addysg uwch newydd.[13] Nod y gyfres gyntaf o'r argymhellion hyn yw meithrin teimlad o berthyn ymhlith myfyrwyr newydd. Mae argymhellion eraill yn cynnwys darparu cyfleoedd i fyfyrwyr gwrdd â chyd-fyfyrwyr o amrywiaeth eang o gefndiroedd fel eu bod yn gallu gweld myfyrwyr sy'n debyg iddyn nhw eu hunain mewn rhai ffyrdd, a sicrhau bod amrywiaeth ymysg y staff y byddant yn rhyngweithio â nhw; cyfathrebu gwasanaethau cynhwysol a chymorth i ymgeiswyr a myfyrwyr newydd; yn ogystal â "normaleiddio'r pethau da a drwg wrth ymgartrefu". Mae'r argymhellion eraill yn cynnwys camau i ddarparu "ffynonellau gwybodaeth hygyrch yn rhagweithiol" a "chefnogi myfyrwyr i wneud cysylltiadau cymdeithasol drwy'r flwyddyn gron".

**mentora gan gymheiriaid**

Mae'r adroddiad am waith ymchwil Myfyrwyr Unite hefyd yn trafod pwysigrwydd cefnogaeth a **mentora gan gymheiriaid** sy'n un o'r pum prif thema sy'n dod i'r amlwg mewn amrywiaeth o ddulliau trosglwyddo. Pan mae'r dulliau trosglwyddo sydd wedi eu disgrifio wedi eu seilio ar un neu fwy o'r pum thema hyn – teimlad o berthyn, datblygu sgiliau, cynefino, gwybodaeth, neu fentora gan gymheiriaid – bydd yr eiconau a gyflwynir yn yr adran hon yn cael eu defnyddio i ddarparu cyfeiriad hawdd at y themâu hyn drwy'r holl esiamplau o arferion da a gyflwynir. Mae'n briodol nodi y gall un dull ymwneud â nifer o themâu, er enghraifft penodi mentoriaid sy'n gymheiriaid sy'n ymwneud â chynefino a rhannu gwybodaeth gyda'r rhai sy'n cael eu mentora.

Hefyd, darperir rhestr yn yr Atodiad o'r adnoddau yn ymwneud â throsglwyddo a welwyd drwy gydol yr adroddiad hwn, ac mae'r rhestr yn dosbarthu'r adnoddau yn ôl eu themâu perthnasol.

# 5. Adnoddau QAA

Mae QAA wedi cynhyrchu amrywiaeth eang o adnoddau yn ymwneud â throsglwyddo sydd wedi eu seilio ar brosiectau a mentrau oedd yn ceisio adnabod dulliau llwyddiannus. Mae prosiect QAA 2020-21 ar gyfer cefnogi myfyrwyr i drosglwyddo'n llwyddiannus yn cynnig dulliau cadarnhaol ac atebion ymarferol er mwyn helpu i gefnogi amrywiaeth o ddulliau trosglwyddo, gan ganolbwyntio ar gefnogi myfyrwyr wrth iddynt fynd i mewn i addysg uwch am y tro cyntaf neu wrth iddynt ddychwelyd i'r brifysgol. Mae rhan fawr o'r adnoddau hyn ar gael ar wefan QAA sy'n agored i'r cyhoedd, ac mae rhagor o adnoddau ar gael i staff sefydliadau sy'n aelodau o QAA yn unig. Yn ogystal, mae'r adran 'cymorth trosglwyddo' yn yr adnodd 'Map Dyfarnu' QAA yn cyfeirio ymhellach at gasgliad o adnoddau ac arferion da sydd ar gael i sefydliadau sy'n aelodau o QAA. Mae trafodaeth yn yr adran hon am ddetholiad o'r dulliau llwyddiannus hyn.

Mae canllaw QAA i fyfyrwyr am y cwricwlwm cudd wedi ei seilio ar y syniad fod bodolaeth 'cwricwlwm cudd' yn golygu nad oes gan rai myfyrwyr y sgiliau i ymdopi â thiriogaeth anghyfarwydd addysg uwch, a gall hyn gael effaith ar eu lles a'u teimlad o berthyn.[14] Mae'r canllaw'n rhagweld y mathau o gwestiynau posibl sydd gan fyfyrwyr wrth iddyn nhw ddechrau llywio drwy fywyd prifysgol ac ymgyfarwyddo â'r gwahanol egwyddorion, trefnau a phrosesau. Darperir diffiniadau ac esboniadau defnyddiol, yn cynnwys termau cyffredin a ddefnyddir yn y brifysgol, amrywiaeth o wasanaethau cymorth a allai fod ar gael i fyfyrwyr eu ceisio os bydd eu hangen arnynt ac esiamplau o dermau a ddefnyddir i ddisgrifio dysgu, addysgu ac asesu.

Trwy ddefnyddio arferion ym Mhrifysgol Sussex i gefnogi meddylfryd y myfyrwyr drwy ddefnyddio eu cryfderau, mae'r adnodd 'Using strengths to support student mindset' yn helpu myfyrwyr i ganfod eu cryfderau cyn iddyn nhw fynd i mewn i addysg uwch. Yn ystod y cyfnod cynefino, mae gweithdai penodol yn cael eu hamserlennu i gefnogi myfyrwyr i ddeall, datblygu a defnyddio eu cryfderau trwy gydol eu profiad prifysgol.

Lluniwyd adnoddau QAA ar gyfer cynlluniau dysgu annibynnol i gael eu defnyddio gan ddarparwyr i gefnogi myfyrwyr i lunio eu cynlluniau dysgu annibynnol eu hunain a fydd yn eu helpu i reoli eu hamcanion a'u disgwyliadau drwy gydol eu teithiau addysg uwch. Mae'r adnodd yn annog myfyrwyr i adnabod y cryfderau a'r sgiliau y maent wedi eu datblygu, a'r sgiliau y dylent eu datblygu ymhellach i'w cefnogi i gyflawni eu hamcanion.

Mae'r adnodd 'Building belonging in the post-pandemic landscape' yn ymwneud â magu teimlad o berthyn ar ôl y pandemig, ac mae'n disgrifio pwysigrwydd ymwreiddio teimlad o berthyn ymhlith y myfyrwyr wrth iddyn nhw drosglwyddo i mewn i addysg uwch a gweithio eu ffordd drwy addysg uwch. Mae'r adnodd yn tynnu sylw at agweddau penodol o ddulliau Prifysgol Glasgow Caledonian o fagu teimlad o berthyn, sy'n cynnwys dull trosglwyddo sy'n ystyried 'cylch bywyd' y dysgwr, cymorth cyn-mynediad ynghyd â darparu gwybodaeth am raglenni a pharatoad ar gyfer y brifysgol. Mae'r Brifysgol hefyd wedi datblygu rhaglen o gymorth dysgu gyda chefnogaeth cymheiriaid i greu cysylltiad rhwng myfyrwyr cyfredol a myfyrwyr newydd er mwyn helpu myfyrwyr newydd i ymgyfarwyddo â bywyd yn y Brifysgol a gwneud cysylltiadau cymdeithasol newydd.

Ar yr un thema – 'teimlad o berthyn', mae QAA yn cynnig amrywiaeth o addasiadau neu weithgareddau bach y gall athrawon addysg uwch eu defnyddio i gefnogi adeiladu cymuned ymhlith grŵp o fyfyrwyr. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys pwyntiau cychwyn ar gyfer sgyrsiau cyn darlithoedd ar unrhyw bwnc er mwyn helpu i ddatblygu cymuned carfan, yn ogystal ag awgrymiadau am sesiynau 'torri'r iâ' a fydd yn helpu i ddatblygu hyder a sicrhau fod pob llais yn cael ei glywed ymhob sesiwn. Opsiwn arall yw cyfleoedd 'ymlacio a sgwrsio', y tu allan i wersi wedi'u hamserlennu, sy'n galluogi i fyfyrwyr gyfarfod yn anffurfiol â thiwtoriaid i sgwrsio am agweddau penodol o'u dysgu neu eu profiad prifysgol. Mae amrywiaeth o daflenni gyda gweithgareddau a chyfarwyddiadau ar gael ar wefan QAA y gall staff eu defnyddio i adeiladu cymunedau ar y cyd â'r myfyrwyr ac i'w cefnogi i drosglwyddo.

## 6. Arferion yn yr Alban

Yn ystod y cyfnod o 2014 hyd 2017, mae QAA Scotland, ar y cyd â sefydliadau addysg uwch yn yr Alban, wedi cyflawni gwaith o dan y Thema Gwelliant ‘Trosglwyddo Myfyrwyr’ – sef menter gwella bwrpasol oedd yn archwilio sut mae myfyrwyr yn trosglwyddo i mewn i, drwy ac allan o addysg uwch. Ochr yn ochr â gwaith sefydliadol, roedd y Thema Gwelliant ‘Trosglwyddo Myfyrwyr’ yn cynnwys dau brosiect mawr ar gyfer y sector cyfan. O ganlyniad i'r gwaith hwn, cynigiwyd nifer o fodelau trosglwyddo sy'n darparu fframweithiau ar gyfer deall sut mae myfyrwyr yn trosglwyddo. Gyda'i gilydd, mae'r modelau hyn yn dangos bod prosesau trosglwyddo'n aflinol, emosiynol gymhleth ac wedi eu dylanwadu gan ffactorau mewnol ac allanol.

Dyma'r chwe argymhelliad cyffredinol a ffurfiwyd o ganlyniad i'r gwaith ymchwil:




1. *Paratoi'n gynnar*: Dylai sefydliadau ddarparu **gwybodaeth** realistig a chymorth i'r myfyrwyr cyn iddyn nhw gychwyn eu hastudiaethau i'w helpu i reoli eu disgwyliadau.

2. *Datblygu sgiliau*: Yn y cwricwla, dylid ymwreiddio **hyfforddiant** mewn gweithio'n effeithlon, hunanwerthuso a dysgu annibynnol.

3. *Cymorth parhaus*: Dylid ymestyn y **cyfnod cynefino** y tu hwnt i'r wythnosau cyntaf a theilwra cymorth i wahanol gamau trosglwyddo.

4. *Integreiddiad ymhlith cymheiriaid ac integreiddiad cymdeithasol*: Dylid hwyluso **mentora gan gymheiriaid** ac ymgysylltiad cymdeithasol i ddatblygu teimlad o **berthyn**.

5. *Rhoi adborth a hwyluso hunanwerthuso*: Dylid defnyddio asesiad ffurfiannol a dulliau hunanwerthuso i gefnogi **twf academaidd**.

6. *Dulliau cyfannol*: Dylid mabwysiadu dulliau ag iddynt gamau niferus i dywys strategaethau sefydliadol a gwasanaethau cymorth myfyrwyr.

Er nad yw'r argymhellion hyn yn rhoi esboniad llawn o'r bum thema sydd wedi codi o'r prosiect hwn, maen nhw'n mynd i'r afael yn glir â phob un o'r themâu ac yn rhoi sicrhad bod y rhain yn themâu y dylid eu hystyried mewn gweithgareddau trosglwyddo a chymorth perthnasol.

Yn rhan o werthusiad cynhwysfawr o'r 20 mlynedd o Themâu Gwelliant yn yr Alban, cafodd llwyddiant y Thema ‘Trosglwyddiad Myfyrwyr’ ei ddangos mewn sylw gan y gwerthuswyr ynglŷn â “faint mae'r sector yn mynd ati erbyn hyn i ystyried profiadau'r myfyrwyr ar bob cam o'r daith addysg uwch…”.[15] Mae hyn wedi ei adlewyrchu mewn esiamplau o ddulliau a ddefnyddir yn yr Alban a nodwyd fel arferion da gan adolygwyr sicrwydd ansawdd yn rhan o Adolygiad Sefydliadol i Sicrhau Gwelliant (Adolygiad SSG) rhwng 2013 a 2021 neu Adolygiad Gwella Ansawdd a Safonau (Adolygiad GAS) rhwng 2022 a 2024.[16]



Mae **Prifysgol Robert Gordon** yn cynnig rhaglenni cynefino wedi'u teilwra sy'n ystyried anghenion myfyrwyr rhyngwladol, myfyrwyr ar gyrsiau ehangu cyfranogiad a grwpiau eraill o fyfyrwyr. Mae gweithio mewn partneriaeth sefydledig â Choleg Gogledd Ddwyrain yr Alban, a gwarantu lleoedd yn y brifysgol, yn helpu myfyrwyr sy'n dechrau ar gwrs cymhwyster yn y Coleg i ddeall y gofynion ar gyfer trosglwyddo i'r Brifysgol, ac mae'r Brifysgol yn darparu rhaglen gynefino uwch i fyfyrwyr sy'n trosglwyddo o golegau cyswllt.[17]

Trwy ei phartneriaethau gyda cholegau lleol a'i threfniadau trosglwyddo cysylltiedig, canfu **Prifysgol Dundee** fod rhai myfyrwyr sy'n trosglwyddo o dan anfantais oherwydd yr heriau wrth geisio cyfateb y cwricwla. I fynd i'r afael â hyn, aeth y Brifysgol ati i ddatblygu modiwlau 'STEP UP' [Student Transition Enhancement Programme for University Progression], sef rhaglen i wella trosglwyddiad myfyrwyr i'r brifysgol, a ddarperir gan Ganolfan Sgiliau Academaidd y Brifysgol, gyda'r nod o helpu myfyrwyr sy'n trosglwyddo i mewn i gyrsiau mewn Rheoli Busnes, ac yn y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol.[18]

Mae gan **Brifysgol y Frenhines Margaret** Weithgor Trosglwyddo a Chynefino i oruchwylio ei phrosesau cynefino. Mae nifer o elfennau yn null y Brifysgol, sy'n cynnwys rhaglen gynefino hydredol i gefnogi myfyrwyr wrth iddynt drosglwyddo i mewn i'r brifysgol, a rhaglenni cynefino cynnar a rhaglenni mentora gan gymheiriaid i fyfyrwyr o grwpiau 'ehangu cyfranogiad'. Mae cynllun QMAdvance ar gael i fyfyrwyr hŷn, sy'n cynnwys cwrs cyn-mynediad sy'n para tri diwrnod, ochr yn ochr â mentora gan gymheiriaid.[19] Mae'r Gwasanaethau Myfyrwyr yn darparu cynlluniau mentora wyneb yn wyneb ac ar-lein ychwanegol sydd wedi eu hanelu'n fwy arbennig at fyfyrwyr 'ehangu cyfranogiad'. Hefyd, mae gan y Brifysgol drefniadau cymorth ar gyfer ymadawyr gofal sy'n cynnwys gwarantu lle byw, darparu person cyswllt enwebedig, neilltuo gwasanaethau cymorth yn rhagweithiol yn ogystal â chyfeirio at gyfleoedd gwaith o fewn y Brifysgol.[17]

Mae **Prifysgol Caeredin** a **Chymdeithas Myfyrwyr y Brifysgol** yn darparu ystod o gynlluniau dysgu gyda chefnogaeth cymheiriaid [peer-assisted learning schemes (PALS)] sy'n bennaf berthnasol i'r myfyrwyr hynny sydd ar bwyntiau trosglwyddo allweddol. Mae sesiynau astudio gyda chefnogaeth cymheiriaid, mentora gan gymheiriaid a chymorth gan gymheiriaid yn darparu amrywiaeth o rwydweithiau academaidd a rhwydweithiau adeiladu cymuned i fyfyrwyr ymhob grŵp blwyddyn. Mae'r gwaith dysgu gyda chymorth cymheiriaid hwn wedi ennill cydnabyddiaeth yn yr Alban ac yn rhyngwladol, yn cynnwys gan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, Cyngor Materion Myfyrwyr Rhyngwladol y DU, sparqs[*] ac Advance HE. Yn ystod ei Hadolygiad SSG a gafwyd yn 2021, dywedodd nifer o fyfyrwyr bod y cynllun PALS wedi cynyddu eu hymgysylltiad â'u maes astudio a'u bod hefyd wedi cymryd rhan yn y cynllun fel mentoriaid sy'n gymheiriaid mewn blynyddoedd dilynol. Adroddodd tîm yr Adolygiad SSG fod y cynlluniau hyn yn gwneud defnydd effeithiol o fyfyrwyr sydd â phrofiad personol o drosglwyddo i gefnogi myfyrwyr sydd newydd gychwyn yn y brifysgol.[20]

O ganlyniad i'w hymwneud â'r Thema Gwelliant 'Trosglwyddo Myfyrwyr', aeth **Prifysgol Gorllewin yr Alban** ati i ddatblygu 'map llwybr'.[21] Lluniwyd 'map llwybr' y Brifysgol i gefnogi myfyrwyr drwy'r deuddeg wythnos gyntaf o astudio, gan dynnu sylw at agweddau allweddol o fywyd prifysgol ar hyd taith y myfyriwr. Yn yr hunan-ddadansoddiad a wnaed gan y Brifysgol yn rhan o'i gwaith o baratoi ar gyfer ei Hadolygiad SSG a gafwyd yn 2019, nodwyd bod y sefydliad wedi gweld cyfraddau cadwraeth a chynnydd gwell ymysg y myfyrwyr a chyflawniad dangosyddion perfformiad allweddol sefydliadol perthnasol o ganlyniad i'r gwaith hwnnw.

[*] sparqs yw'r acronym Saesneg am bartneriaethau gyda myfyrwyr wrth sicrhau a gwella ansawdd yn yr Alban [Student Partnerships in Quality Scotland]

Mae **Prifysgol Abertay** wedi defnyddio dull deuol o gefnogi myfyrwyr wrth iddyn nhw drosglwyddo. Yr elfen gyntaf yw ‘Offeryn Darganfod’ Prifysgol Abertay, sef prawf diagnostig a wneir gan bob myfyriwr blwyddyn gyntaf sy'n cynnwys cwestiynau hunanwerthuso i helpu myfyrwyr i adnabod eu cryfderau a chanfod eu meysydd sydd angen eu datblygu. Mae'r cwestiynau'n ymwneud â'r pynciau a ganlyn: astudio yn y brifysgol, sgiliau academaidd, sgiliau digidol, gyrfaoedd a chyflogadwyedd, a lles.[22] Yn ogystal â rhoi adroddiad adborth wedi'i bersonoli i'r myfyrwyr, mae'r arweinwyr rhaglen yn derbyn adroddiad trosolwg sy'n nodi cryfderau a meysydd sydd angen eu datblygu ar lefel y garfan gyfan. Yr ail elfen yw cyfres o ficro-gymwysterau sy'n cynnwys ‘Bod yn llwyddiannus ym Mhrifysgol Abertay’, ‘Ysgrifennu llwyddiannus ym Mhrifysgol Abertay’, ‘Dundee a fi’, ‘Sgiliau ymchwil ac ymholi i'r oes ddigidol’ ac ‘Offer a thriciau ar gyfer lles’. Mae'r micro-gymwysterau hyn yn cefnogi'r myfyrwyr wrth iddynt drosglwyddo i mewn i'r Brifysgol ac yn eu helpu i ddatblygu unrhyw feysydd lle canfuwyd gwendidau drwy'r ‘Offeryn Darganfod’ (sy'n rhan o ‘Bod yn llwyddiannus ym Mhrifysgol Abertay’). Mae'r gyfres hon o ficro-gymwysterau'n galluogi i bob myfyriwr gychwyn ar daith wedi'i phersonoli i wella sgiliau academaidd a chefnogi eu hintegreiddiad cymdeithasol yn y Brifysgol. Mae'r micro-gymwysterau'n cael eu cefnogi gan Gynorthwywyr Modiwl sy'n fyfyrwyr, ac sy'n cynnig pwyntiau cyswllt ar hyd y ffordd i'r myfyrwyr i'w galluogi i ofyn cwestiynau iddyn nhw, cael cymorth ganddynt neu gael eu cyfeirio at staff academaidd. Hefyd, mae'r myfyrwyr yn cael eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu ac adolygu micro-gymwysterau ar y cyd. Yn ôl adroddiad yr Adolygiad GAS o'r Brifysgol a gafwyd yn 2021, dywedodd myfyrwyr fod ‘Bod yn llwyddiannus ym Mhrifysgol Abertay’ wedi rhoi gwell dealltwriaeth iddynt o'r hyn a ddisgwylir ganddynt mewn cyd-destun academaidd, yn ogystal ag adnabod eu huchelgeisiau personol mewn perthynas ag astudio yn y brifysgol.[23]

# 7. Arferion yn Lloegr

Mae amrywiaeth o arferion da o Loegr wedi eu cynnwys yn yr adnoddau a'r arferion da a gasglwyd gan QAA ac a gyflwynwyd yn adran 5 uchod. Mae llawer o'r arferion da yn Lloegr a adnabuwyd drwy'r prosiect hwn yn disgrifio camau gweithredu a gweithgareddau sydd â'r nod o ddatblygu cysylltiadau â myfyrwyr sy'n trosglwyddo, datblygu eu teimlad o berthyn i'r sefydliad newydd a'r grwpiau myfyrwyr newydd, datblygu eu sgiliau academaidd ac adnabod eu hanghenion dysgu unigol.

Mae **Canolfan Brifysgol De Dyfnaint** yn defnyddio sesiynau tiwtora integredig lle mae pob myfyriwr yn cael tiwtor personol y maent yn cyfarfod â nhw unwaith yr wythnos i gael sesiwn diwtora mewn grŵp, ar y cyd â myfyrwyr eraill sy'n astudio ar y cwrs.[11] Mae'r sesiynau tiwtora mewn grŵp hyn yn dilyn cwricwlwm sy'n ymwneud â sgiliau astudio, datblygiad personol a chyflogadwyedd. Mae myfyrwyr yn cael sesiynau tiwtora un-i-un hefyd i dderbyn cymorth academaidd a bugeiliol.

Mae **Prifysgol Plymouth** yn cynnal 'diwrnodau i gael profiad' i'r myfyrwyr newydd hynny sydd wedi datgelu bod ganddynt gyflyrau gorbryder.[11] Cynhelir y diwrnodau hyn ar ffurf rhaglen undydd i hyd at 15 o fyfyrwyr fel y gallant ymgyfarwyddo â'r amgylchedd newydd, er mwyn annog hyder, cynorthwyo â throsglwyddo a gostwng pethau sy'n sbarduno gorbryder.

Mae **Prifysgol Gorllewin Llundain** yn darparu rhaglen fentora gan gymheiriaid wedi'i theilwra sy'n hwyluso ymchwilio i deimlad o gymuned drwy ryngweithio â chyd-fyfyrwyr: Monitro a gwella cadwraeth ymhlith grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.[24] Yng nghyd-destun yr astudiaeth achos hon, nod mentora gan gymheiriaid yw creu perthynas sydd o fudd i'r ddwy ochr, rhwng unigolyn sydd â phrofiad yn barod o astudio yn y brifysgol a myfyriwr sy'n newydd i'r brifysgol. Maen nhw'n gwirfoddoli i rannu profiadau a heriau er mwyn helpu ei gilydd i deimlo'n rhan o'r gymuned a datblygu sgiliau dros y flwyddyn academaidd. Rhoddir y dewis i fyfyrwyr gael bod yn rhan o naill ai raglen safonol o fentora gan gymheiriaid, rhaglen fentora i fyfyrwyr rhyngwladol neu raglen fentora i fyfyrwyr Du.

Dull diddorol a ddefnyddir gan **Goleg Prifysgol Birmingham** yw mabwysiadu safbwynt marchnata i gefnogi dull cynefino sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr (ac ar bob peth arall sy'n ymwneud â phrofiad y myfyriwr) yn hytrach na dull mwy traddodiadol sy'n canolbwyntio ar y sefydliad neu'r cwrs.[25] Mae'r dull yn gweithio ar sail y ffaith bod cefnogi trosglwyddiad da i addysg uwch yn ymwneud yn y bôn â bod yn "agos atoch, ar sail un-i-un yn ddelfrydol, a gwrando ar yr hyn y mae myfyrwyr yn wirioneddol ei angen a'i eisiau".

Yn ogystal, mae 'Wyt ti'n barod i ddysgu?' [Ready to learn?] Sef astudiaeth o wybodaeth a dealltwriaeth myfyrwyr wrth iddynt fynd i mewn i addysg uwch yn 2021, oedd yn archwilio i ba raddau yr oedd y pandemig COVID-19 wedi effeithio ar barodrwydd y myfyrwyr oedd yn mynd i mewn i addysg uwch.[26] Mae'r astudiaeth wedi ei seilio ar ddata am gyfnod o ddeng mlynedd sy'n archwilio trosglwyddiad academaidd myfyrwyr mewn Bioleg, ac mae'n cymharu gwybodaeth, sgiliau a galluoedd y myfyrwyr hyn a aeth i mewn i addysg uwch yn 2020 a 2021 â'r myfyrwyr hynny a aeth yn 2019. Prif ganfyddiad y gwaith ymchwil oedd nad oedd gwahaniaethau arwyddocaol rhwng y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o dermau a chysyniadau biolegol oedd gan y myfyrwyr a wynebodd doriadau yn eu haddysg a'r rhai na chafodd hynny.

# 8. Arferion yng Nghymru


Yn 2001, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei datganiad strategol cyntaf am addysg a dysgu gydol oes oedd yn nodi gweledigaeth ar gyfer ehangu mynediad i addysg a chyfleoedd dysgu (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2001).[27] Sefydlwyd y rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach drwy Gymru gyfan yn 2002-03 gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), sef rhaglen gydweithredol dymor hir a chanddi'r nod o ehangu mynediad i addysg uwch a sgiliau uwch yn y rhanbarth.[28] Mae'r rhaglen yn parhau i fod ar waith heddiw, a'i nod yw cynyddu mynediad i addysg uwch, hybu cadwraeth a sicrhau llwyddiant dysgwyr o grwpiau a chymunedau sydd â blaenoriaeth yng Nghymru, drwy godi eu dyheadau addysgol a datblygu eu sgiliau, a drwy greu cyfleoedd astudio arloesol a llwybrau dysgu i mewn i addysg uwch. Mae'r dystiolaeth o arfer da sydd wedi ei disgrifio isod yn cynnwys dwy astudiaeth achos sy'n arddangos gwaith a rôl y rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach.

Mae'r Diplomâu Mynediad i AU yn cynrychioli llinyn gweithredu pwysig arall yn y tirlun ehangu cyfranogiad a llwybrau trosglwyddo yng Nghymru. Yn 2023-24, roedd 1,486 o ddysgwyr wedi eu cofrestru ar gwrs Diploma Mynediad i AU Agored Cymru, sef y brif Asiantaeth Dilysu Mynediad a reoleiddir gan QAA yng Nghymru. Mae'r Diploma'n dal i fod yn llwybr hynod werthfawr i mewn i addysg uwch i oedolion sydd heb gymwysterau traddodiadol. Trwy sicrhau bod gan ddysgwyr y sgiliau, yr hyder a'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i astudio ar lefel uwch, mae'r Diploma'n chwarae rôl werthfawr mewn ehangu mynediad a chefnogi uchelgeisiau cenedlaethol ar gyfer datblygu sgiliau oedolion a dysgu gydol oes.

I gefnogi'r prosiect hwn, galwyd ar bawb i gyflwyno esiamplau o arferion da ym mis Ebrill 2025. Anfonwyd hysbysiad at yr holl ddarparwyr addysg uwch a reoleiddir yng Nghymru sydd ar restr QAA o gysylltiadau darparwyr, ac yn ogystal at yr holl golegau drwy ColegauCymru. Gofynnwyd i ddarparwyr gyflwyno esiamplau o arferion da oedd yn dangos ffyrdd o gefnogi dysgwyr wrth iddyn nhw symud ymlaen a throsglwyddo i mewn i addysg uwch a gweithio eu ffordd drwy addysg uwch; cytunwyd ar 14 astudiaeth achos, yn cynnwys un astudiaeth achos oedd wedi ei chasglu gynt gan QAA Cymru yn rhan o'i gwaith ar ficro-gymwysterau.

Gellir categoreiddio'r astudiaethau achos yn fras o dan un neu fwy o'r pum prif thema, fel y gwelwch yn Ffigur 2. Mae pum astudiaeth achos yn ymwneud â datblygu cymuned neu **deimlad o berthyn** ymhlith y grŵp o ddysgwyr sydd eisiau symud ymlaen i addysg uwch neu sy'n newydd i addysg uwch. Mae'r rhan fwyaf o'r astudiaethau achos yn disgrifio dulliau o ddatblygu sgiliau er mwyn sicrhau bod gan ddysgwyr y **sgiliau** priodol i gychwyn astudio ar gwrs addysg uwch. Mae hanner yr astudiaethau achos yn dangos amrywiaeth o ddulliau o godi dyheadau i fynd ymlaen i addysg uwch, gan gynnwys darparu **gwybodaeth** ddiduedd am astudiaethau addysg uwch. Dim ond tair astudiaeth achos sy'n cyfeirio'n benodol at **gynefino** yn rhan o'u dull, ond tybir fod pob darparwr a gynrychiolir yn darparu gweithgareddau cynefino i bob myfyriwr newydd, ac mae tair o'r astudiaethau achos yn canolbwyntio ar **fentora gan gymheiriaid** neu mae mentora gan gymheiriaid wedi ei gynnwys yn rhan o'r mentrau.

Ffigur 2: Themâu'r astudiaethau achos a gyflwynwyd




Mae'r eiconau sydd wedi eu cyflwyno yn adran 4 yn dangos y prif themâu sy'n berthnasol i bob astudiaeth achos. Mae testun llawn pob astudiaeth achos i'w weld ar wefan QAA Cymru.

Am mai dim ond 18 o ddarparwyr addysg uwch sydd yng Nghymru (10 coleg ac 8 prifysgol), mae'r sector yn ddigon bach i gefnogi **cydweithio**, ac mae'r rhan fwyaf o'r astudiaethau achos yn dangos yn glir bod cydweithrediad cryf yn digwydd, gyda **gweithio mewn partneriaeth** rhwng prifysgolion a cholegau, a rhwng prifysgolion a lleoliadau addysg eraill, megis ysgolion.

## Astudiaethau achos o arferion da

'**Ymgyrraedd yn Ehangach**' yw enw'r rhaglen gydweithredol drwy Gymru gyfan sy'n gweithio gyda phrifysgolion, colegau ac ysgolion i wella symudedd cymdeithasol drwy ehangu mynediad i addysg uwch ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae'r rhaglen yn cael ei hariannu gan Medr ac yn targedu dysgwyr yn y ddau gwintel isaf o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC), yn ogystal ag unigolion sydd wedi profi gofal, gofalwyr, dysgwyr ag anableddau, grwpiau lleiafrifoedd ethnig a dysgwyr cyfrwng Cymraeg. O dan arweiniad Prifysgol Abertawe, Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Bangor yn eu rhanbarthau, mae'r rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach yn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau ymgysylltu, yn gynnwys ymweliadau â champysau, gweithdai pwnc-benodol, mentora a sesiynau hysbysu wedi'u teilwra. Yn 2023-24, cyrhaeddodd y rhaglen 17,570 o gyfranogwyr, gan ddarparu mwy na 95,000 o oriau o ymgysylltiad, gyda 70% o'r dysgwyr yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach. Trwy gynnig profiadau ymarferol, arweiniad wedi'i bersonoli, a chymorth tymor hir, mae'r rhaglen yn helpu dysgwyr i ystyried bod addysg uwch yn nod cyraeddadwy. Mae'r rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach yn parhau i rymuso'r genhedlaeth nesaf drwy chwalu'r rhwystrau a chreu cyfleoedd addysg cynhwysol ledled Cymru.



Yn 2022, lansiwyd **[rhaglen fentora ddwyieithog ar-lein genedlaethol](#)** y fenter Ymgyrraedd yn Ehangach, mewn partneriaeth â'r elusen Brightside, ac mae'n cefnogi pobl ifanc rhwng 14 a 19 oed o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i archwilio llwybrau addysgol. Darperir y rhaglen ar blatfform diogel, ac mae'n cynnig sesiynau mentora un-i-un hyblyg ar-lein yn y Gymraeg a'r Saesneg, sy'n cyfateb â strategaeth 'Cymraeg 2050' Llywodraeth Cymru. Dynodir mentoriaid i'r myfyrwyr ar sail y ffaith bod ganddynt yr un diddordebau ac mae'r mentoriaid hyn yn fyfyrwyr sydd wedi eu hyfforddi'n briodol ac sydd wedi pasio gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) yn llwyddiannus. Mae'r rhaglen yn cynnwys tri phrosiect wedi'u teilwra: mentora mewn meysydd dysgu craidd ar gyfer disgyblion ym mlynyddoedd 11 i 13, mentora mewn meysydd dysgu STEM ar gyfer blynyddoedd 9 a 10, a phrosiect penodol i ofalwyr ifanc rhwng 14 a 25 oed. Ers ei threialu, mae'r rhaglen wedi ehangu i gynnwys wyth prosiect erbyn hyn, gan fentora mwy na mil o bobl yn 2023-24, gyda 54% ohonynt o gefndiroedd sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae data am yr effaith a gafodd y rhaglen yn dangos bod y cyfranogwyr wedi datblygu mwy o hyder, a'u bod yn deall llwybrau i addysg uwch yn well, gyda 90% o'r gofalwyr ifanc yn mynd ati i archwilio'r camau nesaf i mewn i fyd addysg neu fyd gwaith. Mae'r rhaglen yn parhau i dyfu ac yn cynnig cymorth hygyrch hanfodol ledled Cymru.






Mae '**[Barod ar gyfer prifysgol](#)**' yn fenter gydweithredol a ddatblygwyd mewn ymateb i'r galwad gan Lywodraeth Cymru am well cymorth i ddysgwyr sy'n trosglwyddo i mewn i addysg uwch. Lansiwyd y prosiect yn 2021 ar blatfform OpenLearn y Brifysgol Agored i ddod â'r **holl brifysgolion yng Nghymru** at ei gilydd i ddarparu adnoddau dwyieithog am ddim yn ymwneud â phynciau megis y broses ymgeisio, bywyd myfyrwyr, sgiliau astudio, lles, ac arweiniad ariannol. Mae'r gwaith o ddatblygu'r prosiect yn cael ei arwain gan grŵp llywio a gweithgor, sy'n cynnwys cynrychiolwyr y llywodraeth, y cyrff addysg a phob sefydliad addysg uwch yng Nghymru. Ymysg ei gynhyrchion nodedig, mae cyfres o bodlediadau dwyieithog dan y teitl 'Sgwrsio am Brifysgol', a chanllaw rhyngweithiol i rieni. Mae'r adnoddau wedi eu llunio i fod yn amhleidiol ac yn hygyrch, a'u nod yw cynnig cyngor ymarferol perthnasol heb hyrwyddo sefydliadau penodol. Cafwyd mwy na 250,000 o ddefnyddwyr ers ei lansio, ac mae'r prosiect wedi cefnogi dysgwyr yn llwyddiannus drwy gydweithio drwy'r sector cyfan. Bydd gwerthusiad llawn yn 2025 yn hysbysu datblygiad yn y dyfodol ac integreiddiad â mentrau eraill er mwyn cefnogi mynediad i addysg uwch ymhellach yng Nghymru.

Mae'r **Diploma Mynediad i Addysg Uwch** (Mynediad i AU) yn gymhwyster lefel 3, a reoleiddir gan **QAA**, sydd â'r nod o gefnogi dysgwyr sy'n oedolion wrth iddyn nhw drosglwyddo i mewn i addysg uwch. Mae'n gyfatebol â Diplomâu Uwch Bagloriaeth Cymru, ac mae'n cynnig llwybr hyblyg i mewn i addysg uwch drwy astudio'n llawn amser am flwyddyn neu'n rhan amser am ddwy flynedd, gyda 60 credyd ar draws y sgiliau academaidd a phroffesiynol. Mae **Agored Cymru**, sef y brif Asiantaeth Dilysu Mynediad a gymeradwyir gan QAA yng Nghymru, yn dilysu 15 o golegau yng Nghymru i gynnig cyrsiau Mynediad i AU mewn 16 o feysydd astudio, gan ganolbwyntio'n gryf ar iechyd, y gwyddorau cymdeithasol a'r biowyddorau. Yn 2023-24, roedd 1,486 o ddysgwyr wedi eu cofrestru gydag un o'r 15 darparwr a ddilysir gan Agored Cymru sy'n darparu cyrsiau Mynediad i AU. Fel arfer, mae 81% o'r dysgwyr Mynediad i AU yn nodi eu bod yn ferched, ac mae 49% yn dod o gefndiroedd difreintiedig.
Mae'r dysgwyr yn elwa o addysgu mewn grwpiau bychain ac o gymorth wedi'i deilwra, ac mae'r deilliannau'n gyfatebol â Lefelau A. Mae'r Diploma wedi ei alinio â'r gweithlu, mae'n ateb anghenion rhanbarthol ac mae'n cael ei gydnabod yn dda gan ddarparwyr addysg uwch yn y DU.
Yn 2023-24, roedd 82% o'r dysgwyr a astudiodd ar gyrsiau Mynediad i AU Agored Cymru wedi aros yng Nghymru i gael eu haddysg uwch, gan atgyfnerthu gwerth y llwybr cymhwyster hwnnw i'r economi a'r cymunedau lleol. Mae'r Diploma'n llwybr pwrpasol, wedi'i brofi, i oedolion symud ymlaen i addysg uwch.

Mae'r **Rhaglen Gyfoethogi Genedlaethol Estynedig** (RhGGE), a ddatblygwyd gan y **Brifysgol Agored yng Nghymru**, yn fenter gydweithredol sydd â'r nod o gefnogi dysgwyr addysg bellach i symud ymlaen i addysg uwch neu i fyd gwaith. Yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, mae'r RhGGE yn darparu adnoddau datblygiad academaidd a phersonol wedi'u teilwra ar y platfform OpenLearn. Esiampl dda o'r effaith a gafodd y RhGGE yw'r ffordd y mae **Coleg Gwent** wedi gweithredu'r rhaglen, gan gynnig cymorth trefnus ar draws tri cham allweddol: cyn cofrestru, cyfnodau cychwynnol astudiaethau addysg uwch, ac wrth baratoi ar gyfer byd gwaith neu astudiaethau pellach. Defnyddiwyd adnoddau penodol gan y dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau academaidd, eu hyder a'u lles. Rhoddodd dau 'Hyfforddwr Cynnydd' penodol arweiniad wedi'i bersonoli gan helpu i integreiddio'r RhGGE i mewn i'r cwricwlwm. Ers ei lansio yn 2023, mae 403 o ddysgwyr addysg uwch yng Ngholeg Gwent wedi elwa o'r rhaglen. Mae'r fenter wedi gwella cynnydd, cyflogadwyedd a gwytnwch y dysgwyr, gan hefyd gyfoethogi arferion addysgu a chyfrannu at ddatblygiad sefydliadol. Mae'r RhGGE yn dangos bod dulliau cynhwysol sydd wedi eu llunio ar y cyd yn werthfawr i gynorthwyo llwyddiant dysgwyr ledled y tirlun addysg ôl-16.

Mae rhaglen '**Sgiliau Academaidd – sylfeini ar gyfer astudio mewn addysg uwch**' **Coleg Cambria**'n fenter allweddol sy'n cefnogi dysgwyr sy'n oedolion ac sy'n astudio ar gyrsiau Diploma Mynediad i Addysg Uwch (AU), yn arbennig y rheiny o gefndiroedd sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. O dan arweiniad tîm Llyfrgell a Sgiliau Academaidd y Coleg, mae'r rhaglen yn cael ei darparu mewn partneriaeth â'r rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach, ac mae'n darparu cymorth wedi'i deilwra i ddatblygu sgiliau academaidd a sgiliau digidol, o'r cam cynefino hyd at gwblhau'r cwrs. Mae'n cynnwys sesiynau yn ymwneud ag ysgrifennu academaidd, rhoi cyfeiriadau, llythrennedd digidol a meddwl beirniadol, ochr yn ochr â gwasanaethau cymorth hollgynhwysol, er enghraifft mewn meysydd megis lles, cynhwysiant ac arweiniad gyrfaol. Mae'r fenter yn meithrin teimlad cryf o berthyn ac yn paratoi dysgwyr ar gyfer trosglwyddo i addysg uwch. Pob blwyddyn, mae oddeutu 150 o ddysgwyr Mynediad i AU yn elwa o'r fenter, gyda chyfran sylweddol ohonynt sy'n dod o grwpiau sydd â blaenoriaeth, yn cynnwys gofalwyr ac unigolion sydd wedi profi gofal. Yn 2023-24, cafodd 58% o'r cyfranogwyr gynigion gan brifysgolion gan fynd ymlaen i'w derbyn. Mae'r rhaglen yn ei phedwaredd flwyddyn erbyn hyn, ac mae'n parhau i dyfu, diolch i ymroddiad y staff a chymorth ariannol y rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach, gan sicrhau mynediad cyfartal i gymorth ac adnoddau hanfodol.

Nod y fenter **HE4ME**, a ddatblygwyd gan **Brifysgol De Cymru** mewn partneriaeth â'r rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach, yw codi dyheadau myfyrwyr sy'n astudio ar gyrsiau lefel 3 yn y coleg a'u cefnogi i fynd ymlaen i addysg uwch. Lansiwyd y rhaglen yn 2024-25 i ddarparu cyfres o bedwar gweithdy rhyngweithiol i fyfyrwyr Celfyddydau Creadigol ar gampws Aberdâr **Coleg y Cymoedd** ac mewn colegau partner eraill. O dan arweiniad staff Prifysgol De Cymru a gyda chefnogaeth llysgenhadon myfyrwyr, mae'r sesiynau'n darparu arweiniad ymarferol diddorol yn ymwneud â bywyd prifysgol, prosesau ymgeisio a chymorth ariannol i fyfyrwyr. Roedd cynnwys straeon personol gan lysgenhadon wedi helpu i dynnu'r dirgelwch o addysg uwch a gwneud y profiad yn rhywbeth y gallai pobl uniaethu ag o. Mae'r adborth gan y myfyrwyr wedi bod yn hynod gadarnhaol, gan dynnu sylw at eglurder, hyder a chymhelliant i ymgymryd ag addysg uwch. Mae'r fenter wedi arwain yn barod at gynnydd amlwg yn y diddordeb mewn prifysgolion ymysg cyfranogwyr. Trwy gynnig cymorth wedi'i deilwra a mewnwelediadau sy'n deillio o'r byd go iawn, mae'r fenter HE4ME yn grymuso dysgwyr i wneud penderfyniadau deallus am eu gyrfaoedd academaidd yn y dyfodol, ac mae'n cryfhau'r trosglwyddiad o addysg bellach i addysg uwch.

Mae rhaglen flaenllaw '**Llwybrau at Radd**' **Prifysgol Caerdydd**, a ddarperir gan ei Hadran Dysgu Gydol Oes, yn cynnig llwybrau rhan amser hyblyg i mewn i addysg uwch i ddysgwyr sy'n oedolion o gefndiroedd sy'n ddifreintiedig neu sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Cawsent eu llunio mewn cydweithrediad ag ysgolion academaidd, ac mae pob un o'r 13 rhaglen Llwybr yn cynnig astudiaeth lefel 4 o 60 credyd a gefnogir gan arweiniad academaidd a bugeiliol wedi'i deilwra. Mae'r fenter yn targedu dysgwyr o ardaloedd incwm isel, unigolion sydd wedi profi gofal, gofalwyr, cyn-filwyr, ffoaduriaid, ceiswyr lloches a'r rheiny sydd ag anableddau neu gyflyrau iechyd meddwl. Yn 2024-25, daeth 63% o'r dysgwyr o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig, gyda chynrychiolaeth gref o gymunedau Du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig a chymunedau LHDTC+. Ers 2012, mae 381 o fyfyrwyr wedi mynd ymlaen i wneud astudiaethau israddedig ym Mhrifysgol Caerdydd, ac mae cyfraddau'r rhai sydd wedi aros ac wedi cwblhau eu graddau'n uchel. Mae'r rhaglen yn chwarae rôl hanfodol mewn ehangu mynediad ac adeiladu cymunedau dysgu cynhwysol o fewn y Brifysgol.

Yn 2024-25, lansiodd **Prifysgol Wrecsam** a **Choleg Cambria** y fenter gydweithredol '**Arwyr Gofal Iechyd**' oedd yn ymwneud â gyrfaoedd, gyda chymorth ariannol Partneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach Gogledd a Chanolbarth Cymru. Lluniwyd y digwyddiad i ysbrydoli a hysbysu disgyblion ysgol (blynyddoedd 10 ac 11) a dysgwyr coleg (lefelau 2 a 3), a'i nod oedd cynyddu ymwybyddiaeth pobl o lwybrau addysg uwch a gyrfaoedd ym maes gofal iechyd. Cynhaliwyd y digwyddiad ym Mhrifysgol Wrecsam, ac roedd yn cynnwys gweithdai ymarferol, darlithoedd blasu, bythau ar gyfer ymgysylltu â chyflogwyr, a chyngor gyrfaoedd un-i-un, gan greu amgylchedd dysgu deinamig a throchi. Cyfranogodd oddeutu 295 o ddysgwyr ynddo, yn cynnwys mwy na 160 o ddisgyblion ysgol a 130 o ddysgwyr coleg. Mae'r fenter wedi meithrin cydweithrediad ar draws y sector yn llwyddiannus, wedi derbyn adborth hynod gadarnhaol ac wedi dangos bod y galw'n uchel, a'r bwriad yw cynnal y digwyddiad bob dwy flynedd o hyn ymlaen.

Mae'r fenter 'Arwyr Gofal Iechyd' yn esiampl wych o arfer da mewn ehangu cyfranogiad a chefnogi dysgwyr wrth iddynt drosglwyddo, yn arbennig mewn sector sy'n wynebu galw cynyddol am sgiliau. Mae hefyd yn tynnu sylw at y potensial i gael mentrau sy'n cynnwys nifer o bartneriaid i ysbrydoli darpar weithwyr proffesiynol a chryfhau datblygiad y gweithlu yn y rhanbarth.





Mae rhaglen '**Aspire**' **Prifysgol Caerdydd** yn fenter allweddol i gefnogi ceiswyr lloches (ffoaduriaid, ceiswyr lloches a mudwyr) drwy fynd i'r afael â'r rhwystrau unigryw a wynebant wrth fynd i mewn i addysg uwch. Yn rhan o ymrwymiad y Brifysgol fel 'Prifysgol Noddfa', mae'r rhaglen Aspire yn cynnig cymorth wedi'i deilwra, sy'n cynnwys diwrnod agored pwrpasol, ysgol haf drochi ac ysgoloriaethau ar gyfer cyrsiau mewn Saesneg a rhaglenni llwybr sy'n arwain at gyrsiau gradd. Mae'r mentrau hyn yn helpu cyfranogwyr i lywio drwy system addysg uwch y DU, datblygu eu hyder yn eu galluoedd academaidd a meithrin teimlad o berthyn. Yn 2023-24, croesawyd 33 o gyfranogwyr o 15 o wledydd ar y rhaglen Aspire, a dywedodd 92% ohonynt eu bod wedi datblygu mwy o hyder i ymgymryd ag astudiaethau prifysgol yn y DU. Symudodd llawer ohonynt ymlaen i addysg bellach, a derbyniodd rai ohonynt ysgoloriaethau llawn. Mae'r rhaglen hefyd yn darparu Llwybrau Aspire ac ysgoloriaethau ar gyfer cyflawni IELTS, gan dalu am ffioedd addysgu ac arholi a chostau adnoddau. Nid yn unig y mae dull cyfannol y rhaglen Aspire yn cefnogi datblygiad academaidd, mae hefyd yn cryfhau'r gymuned a chynhwysiant, gan olygu ei fod yn elfen hanfodol o genhadaeth ddinesig Prifysgol Caerdydd a'i hymdrechion ehangach i ehangu cyfranogiad mewn addysg uwch.





Mae'r cydweithrediad rhwng **Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant** a **Choleg Gŵyr Abertawe** wedi peri cynnydd sylweddol yn y nifer o ddysgwyr ar gyrsiau lefel 3 mewn Peirianneg sy'n symud ymlaen i addysg uwch. Lansiwyd y fenter yn 2020 i ddisodli'r hen Ddiploma BTEC gyda rhaglen sy'n fwy perthnasol i'r diwydiant, y rhaglen **Peirianneg Gweithgynhyrchu Uwch** (PGU), ac mae hon yn cynnwys llwybr Chwaraeon Moduro a luniwyd ar y cyd â Pearson. O dan ddull darparu ar y cyd, mae cyfle i fyfyrwyr y Coleg fynd i Gampws Glannau Abertawe SA1 y Brifysgol bob wythnos, gan gyfuno gweithdai ymarferol â dysgu damcaniaethol a hwyluso rhyngweithio gyda myfyrwyr addysg uwch eraill. Mae'r profiad trochi hwn yn esbonio sut beth yw bywyd prifysgol ac yn rhoi hwb i hyder y dysgwyr. Ers ei ffurfio, mae nifer o ddysgwyr sy'n symud ymlaen i addysg uwch o'r rhaglen PGU wedi cynyddu'n sylweddol, a rhagwelir y bydd y cofrestriadau'n cynyddu o fod yn llai na phum dysgwr yn 2018-19 i 18 yn 2025-26. Mae adborth gan y myfyrwyr yn dangos gwerth cael cipolwg cynnar ar amgylcheddau addysg uwch, ac mae gweithgareddau hyrwyddo wedi cynyddu'r diddordeb ymhellach. Mae'r fenter wedi llwyddo i fynd i'r afael â rhwystrau diwylliannol a seicolegol sy'n atal pobl rhag mynd i mewn i addysg uwch, mae wedi cryfhau'r cyflenwad o ddysgwyr yn y pynciau STEM ac wedi cyfateb y dysgu ag anghenion y diwydiant.

Mae **Cynllun Mentora Myfyrwyr** **Prifysgol Caerdydd**, a sefydlwyd yn 2012, yn chwarae rôl hanfodol mewn cefnogi myfyrwyr israddedig yn eu blwyddyn gyntaf wrth iddynt drosglwyddo i mewn i fywyd prifysgol. Dynodir mentor hyfforddedig i bob myfyriwr newydd ac mae'r mentor yma'n gyd-fyfyriwr o'u hysgol academaidd, sy'n cynnig arweiniad iddyn nhw, yn rhannu profiadau personol, ac yn eu cyfeirio nhw at wasanaethau cymorth y Brifysgol. Mae'r mentoriaid yn helpu i ddatblygu cysylltiadau cymdeithasol, yn rhoi cyngor ymarferol am faterion anacademaidd ac yn cefnogi'r rhai sy'n cael eu mentora i lywio drwy eu hamgylchedd newydd. Mae'r cynllun yn hyrwyddo dull sy'n canolbwyntio ar y bobl sy'n cael eu mentora, gan annog ymgysylltiad a datblygu teimlad o berthyn.

Mae adroddiadau rheolaidd gan fentoriaid yn galluogi i'r Brifysgol fonitro cyfranogiad a chynnig cymorth ychwanegol lle bo angen. Yn 2024-25, dywedodd 63% o'r myfyrwyr fod eu mentor wedi eu helpu i ymgartrefu, a nododd 31% o'r myfyrwyr hynny oedd yn ystyried ymadael yn gynnar mai eu mentor oedd y rheswm eu bod yn aros ymlaen. Ers ei ffurfio, mae mwy na 6,000 o fentoriaid wedi cefnogi mwy na 50,000 o fyfyrwyr, gan wella cadwraeth myfyrwyr, eu hyder a'u hintegreiddiad yn eu bywyd prifysgol.

Mae **Prifysgol Wrecsam** wedi datblygu **pecyn cymorth trosglwyddo digidol** er mwyn paratoi myfyrwyr yn well, yn arbennig y rhai hynny sydd gyntaf yn eu teuluoedd i fynd i addysg uwch neu'r rheiny sy'n dychwelyd i fywyd prifysgol wedi cyfnod o weithio mewn swydd. Yn 2023-24, dechreuodd timau'r Gwasanaethau Myfyrwyr a Bywyd ar y Campws ddefnyddio'r system 'Target Connect' i greu porth 'Bywyd Myfyrwyr' wedi'i deilwra sy'n cynnig adnoddau dwyieithog hygyrch mewn grwpiau thematig i osgoi rhoi gormod o wybodaeth a gwella ymgysylltiad cyn cyrraedd. Mae'r pynciau'n cynnwys asesiadau, cymorth cyllid myfyrwyr, lles a disgwyliadau academaidd, ac mae ganddynt gynnwys rhyngweithiol sydd wedi ei lunio i hybu hyder ac annibyniaeth. Mae'r porth ar gael i ymgeiswyr, myfyrwyr cofrestredig a staff, a hyd yn oed rhieni neu ofalwyr, gan sicrhau mynediad eang at wybodaeth allweddol. Mae data cynnar am y defnydd a wnaed o'r porth yn dangos ymgysylltiad cryf, yn arbennig gyda ffyrdd o fynd i'r afael â heriau, a'r derminoleg a ddefnyddir yn y brifysgol. Mae integreiddio data amser real o gofnodion myfyrwyr yn galluogi i'r Brifysgol fonitro tueddiadau a mireinio cymorth. Y bwriad yw lansio'r porth yn llawn yn ystod haf 2025, gyda'r nod o wella profiadau trosglwyddo a grymuso myfyrwyr i deimlo eu bod yn cael eu paratoi a'u cefnogi'n dda o'r cychwyn un.

Mae **Rhaglen Dysgu Cymunedol** ar ffurf micro-gymhwyster **Prifysgol Caerdydd** yn ddull hyblyg o gefnogi dysgwyr wrth iddynt drosglwyddo. Mae Adran Dysgu Gydol Oes y Brifysgol yn gweithio gydag amrywiaeth eang o bartneriaid cymunedol sy'n cynnwys cynghorau lleol, Cyngor Ffoaduriaid Cymru ac amrywiol grwpiau cymunedol. Trwy weithio'n agos â'r gymuned hon, mae'r Brifysgol wedi cyd-greu cyfres o ficro-gymwysterau (neu fodiwlau) lefel 3 o 10 credyd i gefnogi cymunedau difreintiedig yn y ddau gwintel isaf o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC), a thrwy hynny helpu myfyrwyr i fynd i mewn i'r coleg, y brifysgol neu fyd gwaith. Mae'r modiwlau'n ymwneud ag amrywiaeth o feysydd astudio, o Saesneg Academaidd i Oedolion (ar bum lefel gallu) i gyrsiau cyflwyno mewn cyfieithu, troseddeg, gofal iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant. Mae'r cyrsiau'n datblygu sgiliau cyflogadwyedd yn ogystal â pharatoi dysgwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar gyfer astudiaethau pellach yn y coleg neu'r brifysgol.

# 9. Casgliad

Gwelwyd cydweithrediad effeithiol drwy Gymru gyfan a rhwng darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru er mwyn helpu pobl i symud ymlaen a throsglwyddo'n llwyddiannus i astudiaethau addysg uwch. Nod rhai o'r gweithgareddau sydd wedi eu disgrifio yn yr adroddiad hwn oedd codi dyheadau grwpiau penodol sydd heb gynrychiolaeth ddigonol drwy roi gwybodaeth glir a diduedd am addysg uwch iddyn nhw. Hefyd, mae nifer o fentrau'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau'r dysgwyr. Er mai dim ond 36% o'r astudiaethau achos o Gymru oedd yn ymwneud â theimlad o berthyn, roedd hi'n amlwg bod yma ymrwymiad clir i ddatblygu hyder yr unigolion fel eu bod yn teimlo'r gallu i gychwyn addysg uwch, yn ogystal â darparu cyfleoedd a luniwyd yn ofalus i ddatblygu sgiliau er mwyn cefnogi astudiaethau ar lefel uwch. Dylai'r cyfuniad hwn o ddatblygu hyder a datblygu sgiliau greu teimlad cryfach o berthyn yn naturiol.

Mae'r Diploma Mynediad i AU yn llwybr gwerthfawr y gellir ei chyflawni i fynd mewn i addysg uwch i oedolion sydd heb gymwysterau traddodiadol. Am fod bron i 1,500 o ddysgwyr yn astudio drwy ddarparwyr a ddilysir gan Agored Cymru yn 2023-24, mae'n chwarae rôl allweddol yn barod mewn cefnogi prosesau trosglwyddo drwy baratoad academaidd, datblygu hyder a datblygu sgiliau. Mae'n amlwg fod potensial i ehangu'r llwybr hwn ymhellach, er enghraifft drwy gynnig darpariaeth ran amser sy'n fwy hyblyg, er mwyn ateb anghenion y dysgwyr am gyfleoedd dysgu gydol oes, ac i gefnogi blaenoriaethau cenedlaethol yn ymwneud ag ehangu mynediad, datblygu sgiliau a gwella cyfranogiad economaidd.

Un gwahaniaeth nodedig i'r tueddiadau ehangach yng ngweddill y DU yw bod cyfleoedd ar gael i astudio'n rhan amser. Trwy'r DU gyfan, mae'r gyfran o fyfyrwyr Mynediad i AU sy'n astudio'n rhan amser wedi cynyddu'n sylweddol o 12% yn 2018-19 i 43% yn 2023-24. Ond, dim ond 5% o'r dysgwyr sydd ar gyrsiau Diploma Mynediad i AU yng Nghymru sy'n astudio'n rhan amser. Mae hyn yn awgrymu efallai y bydd rhwystrau strwythurol, ariannol neu rwystrau eraill i ddarpariaeth ran amser yng nghyd-destun Cymru, gan gyfyngu ar yr hyblygrwydd i ddysgwyr sy'n oedolion sydd angen cydbwyso astudio â gwaith neu gyfrifoldebau gofalu. O ystyried hynny, gallai ehangu'r ddarpariaeth Mynediad i AU hyblyg fod yn gyfle i gefnogi uchelgeisiau i ehangu mynediad, datblygu sgiliau, a lleihau anweithgarwch economaidd.

Er bod y rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach wedi bodoli ers mwy nag 20 mlynedd, mae'r rhan fwyaf o'r astudiaethau achos yn disgrifio gweithgareddau sy'n rhy ddiweddar i ddangos a oes gwir dystiolaeth eto o well cadwraeth o ganlyniad i'r ymyriadau. Fodd bynnag, o adolygu amrywiaeth eang o arferion da ac esiamplau o astudiaethau achos llwyddiannus, mae'n briodol cynnig y gall pob darparwr addysg uwch weithredu dull trosglwyddo trefnus a strategol sydd wedi ei alinio â'r themâu allweddol a welwyd drwyddo draw yn yr adroddiad hwn.

Mae datblygu **teimlad cryf o berthyn** yn ffordd rymus o sicrhau llwyddiant mewn addysg uwch, a dylai darparwyr ystyried y teimlad o berthyn ymhob un o'u dulliau trosglwyddo.

Dylid ymwreiddio **datblygiad sgiliau** academaidd ymhob cwrs addysg uwch i'r holl fyfyrwyr, gan leihau'r 'model diffyg'. Dylai cymorth ychwanegol fod ar gael, ond bydd rhoi hyfforddiant rheolaidd mewn sgiliau academaidd i'r myfyrwyr i gyd yn rhoi hwb i'w hyder ac ni fydd cymaint o gyfle i fyfyrwyr aros o'r golwg a cholli allan ar gael cymorth. Yn ogystal, gall defnyddio dulliau o hwyluso myfyrio ac adnabod nodau personol gynorthwyo twf academaidd.




Dylai darparwyr sicrhau bod **gwybodaeth** ddiduedd a realistig am addysg uwch ar gael i bob dysgwr i'w helpu i reoli eu disgwyliadau. Mae'r dulliau hynny'n arbennig o lwyddiannus lle darperir gwybodaeth gan fyfyrwyr addysg uwch cyfredol a gan y rheiny sy'n rhannu nodweddion gyda'r darpar ymgeiswyr/myfyrwyr newydd – er enghraifft, ethnigrwydd, anabledd, profiad o roi neu dderbyn gofal – neu sy'n geiswyr lloches.



Mae **cynefino**'n hanfodol bwysig i bob myfyriwr sy'n newydd i addysg uwch neu sy'n dychwelyd i addysg uwch. Dylai hyn gynnwys cyfleoedd i ddatblygu cysylltiadau nid yn unig â myfyrwyr sy'n astudio ar yr un cyrsiau ond hefyd â chyd-fyfyrwyr ar draws y sefydliad, a datblygu gwybodaeth ynglŷn â sut i ymgysylltu â grwpiau a gwasanaethau y tu allan i'r darparwr a allai adlewyrchu cefndir, crefydd neu ddewisiadau cymdeithasol yr unigolyn yn well. Dylid ymestyn y cynefino yn ehangach na wythnosau cyntaf y tymor a dylid ail-ymweld â'r cynefino ar gamau allweddol pan fydd angen atgoffa myfyrwyr o bosib am strwythurau neu gymorth sydd ar gael neu pan mae angen codi eu calonnau efallai drwy gysylltu â phobl sydd o'r un feddwl â nhw.



Gwelwyd bod y defnydd a wnaed o fyfyrwyr cyfredol a **mentoriaid sy'n gymheiriaid** yn llwyddiannus, yn enwedig ar gyfer rhannu gwybodaeth am addysg uwch a rhoi disgwyliadau realistig i ddysgwyr sy'n ansicr am amgylcheddau addysg uwch.

Dylai darparwyr hefyd ystyried edrych ar brosesau trosglwyddo mewn ffordd gyfannol, gan sicrhau bod timau gwasanaethau proffesiynol yn cydweithio i wneud yn siŵr bod y wybodaeth gywir ar gael, ar yr amser cywir, ac yn cael ei darparu gan y bobl gywir (tiwtoriaid cwrs, mentoriaid sy'n gymheiriaid, amrywiaeth o staff academaidd a staff gwasanaethau proffesiynol).
Dylai darparwyr werthuso eu gweithgareddau sy'n ymwneud â throsglwyddo'n rheolaidd a'u haddasu fel y bo raid ar sail yr adborth gan staff a myfyrwyr, yn ogystal â defnyddio data meintiol megis gwybodaeth am gadwraeth a deilliannau dysgu myfyrwyr.

# 10. Cyfeiriadau/nodiadau

[1] Medr (2025) Sta/Medr/09/2025: Myfyrwyr mewn Addysg Uwch, 2023/24; cyrchwyd 3 Gorffennaf 2025

[2] Llywodraeth Cymru (2023) Myfyrwyr mewn addysg uwch: Medi 2021 i Awst 2022; cyrchwyd 3 Gorffennaf 2025

[3] Llywodraeth Cymru (2025) Dysgwyr unigryw sydd wedi'u cofrestru mewn sefydliadau addysg bellach yn ôl grŵp oedran, dull dysgu a lefel; cyrchwyd 3 Gorffennaf 2025

[4] Medr (2025) Cynllun Strategol 2025-2030; cyrchwyd 3 Gorffennaf 2025

[5] Llywodraeth Cymru (2025) Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET): 2024; cyrchwyd 3 Gorffennaf 2025

[6] Llywodraeth Cymru (2025) Nifer a chyfran o bobl ifanc 16 i 24 blwydd oed heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) sydd wedi cymhwyso yn uwch neu'n is na lefel 3 yng Nghymru, cyfartaledd tair blynedd 2022 i 2024; cyrchwyd 3 Gorffennaf 2025

[7] Llywodraeth yr Alban (2017) 'A Blueprint for Fairness: Final Report of the Commission on Widening Access'; cyrchwyd 3 Gorffennaf 2025

[8] Ar sail dangosyddion amddifadedd lluosog yr Alban (SIMD)

[9] Morgan, J. (2024) 'Fostering belonging in higher education: Implications for student retention and wellbeing', Blog Advance HE; cyrchwyd 3 Gorffennaf 2025

[10] Lewis, K. L. a Hodges, S. D. (2015) 'Expanding the concept of belonging in academic domains: Development and validation of the Ability Uncertainty Scale, Learning and Individual Differences', cyfrol 37, tud. 197-202. https://doi.org/10.1016/j.lindif.2014.12.002; cyrchwyd 3 Gorffennaf 2025

[11] Blake, S., Capper, G. a Jackson, A. (2022) 'Building Belonging in Higher Education. Recommendations for developing an integrated institutional approach', Wonkhe a Pearson; cyrchwyd 30 Mehefin 2025

[12] Unite Students (2024) 'Applicant Index 2024'; cyrchwyd 3 Gorffennaf 2025

[13] Unite Students (2025) '"A different world": the impact of socioeconomic background on the student experience'; cyrchwyd 3 Gorffennaf 2025

[14] Birtill, P., Harris, R. a Pownall M. (2022) 'Student Guide to the Hidden Curriculum', QAA; cyrchwyd 3 Gorffennaf 2025

[15] Jones-Devitt, S. ac Austin, A. (2024) 'An Evaluation of 20 Years of the Enhancement Themes 2003-23', QAA Scotland; cyrchwyd 3 Gorffennaf 2025

[16] Mae trefniadau ac adroddiadau'r holl adolygiadau ansawdd i'w gweld ar wefan QAA Scotland.

[17] QAA (2017) 'Thematic Report on Enhancement-led Institutional Review (ELIR) Reports 2013-16: Transitions Into University'; cyrchwyd 3 Gorffennaf 2025

[18] QAA (2018) Adroddiad Technegol yr Adolygiad Sefydliadol i Sicrhau Gwelliant o Brifysgol Dundee, Tachwedd 2018 (yn Saesneg); cyrchwyd 3 Gorffennaf 2025

[19] QAA (2018) Adroddiad Technegol yr Adolygiad Sefydliadol i Sicrhau Gwelliant o Brifysgol y Frenhines Margaret, Ebrill 2018 (yn Saesneg); cyrchwyd 3 Gorffennaf 2025

[20] QAA (2021) Adroddiad Technegol yr Adolygiad Sefydliadol i Sicrhau Gwelliant o Brifysgol Caeredin (yn Saesneg); cyrchwyd 3 Gorffennaf 2025

[21] QAA (2020) Adroddiad Technegol yr Adolygiad Sefydliadol i Sicrhau Gwelliant o Brifysgol Gorllewin yr Alban, Tachwedd 2019 (yn Saesneg); cyrchwyd 3 Gorffennaf 2025

[22] Hogan, J. a Millard, L. (2024) 'Building Academic and Social Success: Abertay Discovery Tool – a case study output from the Enhancement Themes collaborative cluster project: Personalised Approaches to Resilience and Community (PARC)'; cyrchwyd 3 Gorffennaf 2025

[23] QAA (2024) Adroddiad yr Adolygiad o Ansawdd a Safonau: Prifysgol Abertay, Mawrth 2024 (yn Saesneg); cyrchwyd 3 Gorffennaf 2025

[24] Farrier-Williams, L. (2022) 'Monitoring and Enhancing Retention Among Underrepresented Groups', QAA; cyrchwyd 3 Gorffennaf 2025

[25] Wilby, A. (2021) 'How can we support all students to have a positive transition to HE study?', QAA; cyrchwyd 3 Gorffennaf 2025

[26] Jones, H., Scott, J., Zini, V., Prendergast, J. a Green, J. (2022) 'Ready to learn? A study of student knowledge and understanding as they entered higher education in 2021.', QAA; cyrchwyd 3 Gorffennaf 2025

[27] Nesom, S., Silva, L., Skeels, A., Taylor-Collins, E., Hill-Dixon, A. a Price, J. (2024) Ehangu cyfranogiad mewn addysg drydyddol. Adolygiad tystiolaeth ac ystyriaethau i Gymru, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru; cyrchwyd 3 Gorffennaf 2025

[28] CCAUC (2022) Canllawiau'r Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach; cyrchwyd 3 Gorffennaf 2025

# Atodiad - Cyfeiriadur o adnoddau yn ymwneud â throsglwyddo

| Adnoddau | Y sefydliad a ddatblygodd yr adnoddau |
|---|---|
| **Teimlad o berthyn** – mae teimlad cryf o gymuned yn gwella cadwraeth a lles myfyrwyr | |
| Rhaglen 'Aspire' | Prifysgol Caerdydd |
| Llwybrau at Radd | Prifysgol Caerdydd |
| Cynllun Mentora Myfyrwyr | Prifysgol Caerdydd |
| Sgiliau Academaidd – Sgiliau Sylfaen ar gyfer Astudiaethau Addysg Uwch | Coleg Cambria |
| 'Building belonging in the post-pandemic landscape' | Prifysgol Glasgow Caledonian |
| 'Chill and chat' | QAA |
| 'Ice breakers' | QAA |
| 'Small tweaks' | QAA |
| 'Unite Students Applicant Index' | Myfyrwyr Unite / HEPI |
| '"A different world": the impact of socioeconomic background on the student experience' | Myfyrwyr Unite |
| 'Building Belonging in Higher Education. Recommendations for developing an integrated institutional approach' | Wonkhe/Pearson |
| 'Monitoring and enhancing retention among under-represented groups' | Prifysgol Gorllewin Llundain |
| Pecyn cymorth trosglwyddo digidol | Prifysgol Wrecsam |

| | |
|---|---|
| **Datblygiad sgiliau** – mae cymorth academaidd cynnar ac integredig yn datblygu hyder ac yn datblygu gallu | |
| 'Abertay undergraduate micro-credentials' | Prifysgol Abertay |
| Y Diploma Mynediad i Addysg Uwch | Agored Cymru / QAA |
| Rhaglen 'Aspire' | Prifysgol Caerdydd |
| Rhaglen Dysgu Cymunedol ar ffurf micro-gymhwyster | Prifysgol Caerdydd |
| Llwybrau at Radd | Prifysgol Caerdydd |
| Sgiliau Academaidd – Sgiliau Sylfaen ar gyfer Astudiaethau Addysg Uwch | Coleg Cambria |
| 'Student Transition Enhancement Programme for University Progression (STEP UP) modules' | Prifysgol Dundee |
| Rhaglen Gyfoethogi Genedlaethol Estynedig | Y Brifysgol Agored yng Nghymru / Coleg Gwent |
| 'University Ready' | Y Brifysgol Agored |
| 'Student guide to the hidden curriculum' | QAA |

| | |
|---|---|
| 'Independent learning plan' | QAA |
| Sesiynau tiwtora integredig | Canolfan Brifysgol De Dyfnaint |
| 'Peer-assisted learning schemes (PALS)' | Prifysgol Caeredin a Chymdeithas Myfyrwyr y Brifysgol |
| Menter 'HE4ME' | Prifysgol De Cymru / Coleg y Cymoedd |
| Peirianneg Gweithgynhyrchu Uwch | Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant / Coleg Gŵyr Abertawe |
| 'Building Belonging in Higher Education. Recommendations for developing an integrated institutional approach' | Wonkhe/Pearson |

| | |
|---|---|
| **Gwybodaeth** – mae sicrhau bod gwybodaeth glir, gynhwysol a diduedd ar gael yn galluogi i fyfyrwyr wneud penderfyniadau deallus a ffurfio disgwyliadau realistig | |
| 'Abertay Discovery Tool' | Prifysgol Abertay |
| Cynllun Mentora Myfyrwyr | Prifysgol Caerdydd |
| Sgiliau Academaidd – Sgiliau Sylfaen ar gyfer Astudiaethau Addysg Uwch | Coleg Cambria |
| 'Building belonging in the post-pandemic landscape' | Prifysgol Glasgow Caledonian |
| 'Student Guide to the Hidden Curriculum' | Aelodaeth QAA |
| Cwrs cyn-mynediad a mentora gan gymheiriaid | Prifysgol y Frenhines Margaret |
| Rhaglen Gyfoethogi Genedlaethol Estynedig | Y Brifysgol Agored yng Nghymru / Coleg Gwent |
| 'University Ready' | Y Brifysgol Agored |
| Diwrnodau i gael profiad | Prifysgol Plymouth |
| Menter 'HE4ME' | Prifysgol De Cymru / Coleg y Cymoedd |
| Peirianneg Gweithgynhyrchu Uwch | Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant / Coleg Gŵyr Abertawe |
| Pecyn cymorth trosglwyddo digidol | Prifysgol Wrecsam |
| Arwyr Gofal Iechyd | Prifysgol Wrecsam / Coleg Cambria |

| | |
|---|---|
| **Cynefino** – mae gweithgareddau cynefino trefnus a pharhaus yn paratoi myfyrwyr ar gyfer eu taith addysg uwch | |
| Rhaglen 'Aspire' | Prifysgol Caerdydd |
| Llwybrau at Radd | Prifysgol Caerdydd |
| Sgiliau Academaidd – Sgiliau Sylfaen ar gyfer Astudiaethau Addysg Uwch | Coleg Cambria |
| 'Longitudinal induction' | Prifysgol y Frenhines Margaret |

| | |
|---|---|
| 'Tailored induction programmes' | Prifysgol Robert Gordon |
| 'Student-centred approach to induction' | Coleg Prifysgol Birmingham |
| Diwrnodau i alluogi i fyfyrwyr newydd gael profiad | Prifysgol Plymouth |
| 'Using Strengths To Support Student Mindset' | Prifysgol Sussex |
| 'UWS Roadmap' | Prifysgol Gorllewin yr Alban |
| 'Building Belonging in Higher Education. Recommendations for developing an integrated institutional approach' | Wonkhe/Pearson |

| **Mentora gan gymheiriaid** – mae cymorth gan gyd-fyfyrwyr yn gwella integreiddiad academaidd a chymdeithasol | |
|---|---|
| Cynllun Mentora Myfyrwyr | Prifysgol Caerdydd |
| Cwrs cyn-mynediad a mentora gan gymheiriaid | Prifysgol y Frenhines Margaret |
| 'National online bilingual mentoring programme' | Y rhaglen 'Ymgyrraedd yn Ehangach' |
| 'Peer-assisted learning schemes (PALS)' | Prifysgol Caeredin a Chymdeithas Myfyrwyr y Brifysgol |
| '"A different world": the impact of socioeconomic background on the student experience' | Myfyrwyr Unite |
| 'Monitoring and enhancing retention among under-represented groups' | Prifysgol Gorllewin Llundain |
| Pecyn cymorth trosglwyddo digidol | Prifysgol Wrecsam |

| **Pob thema** | |
|---|---|
| Map Dyfarnu | Aelodaeth QAA |
| Cefnogi myfyrwyr i drosglwyddo'n llwyddiannus | Aelodaeth QAA |

Cyhoeddwyd ym mis Awst 2025

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2025
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786
www.qaa.ac.uk